# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Cofnodion(EOC(3)-04-08)

**Dyddiad: Dydd Iau 13 Mawrth 2008**
**Amser: 9.30 - 12.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Ann Jones (Cadeirydd), Dyffryn Clwyd
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Christine Chapman, Cwm Cynon
Chris Franks, Canol De Cymru
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru
Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Tom Jackson, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol

Derek Walker, TUC Cymru
Chris Hartwell, TUC Cymru
Jeff Hopkins, Y Gymdeithas Cymry-Pwyliaid
Y Cyng. Dewi Enoch, Y Gymdeithas Cymry-Pwyliaid

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Estynnodd y cadeirydd groeso i aelodau'r pwyllgor a'r cyhoedd. Nodwyd bod Angela Burns a Joyce Watson wedi anfon ymddiheuriadau am eu habsenoldeb.

1.2 Estynnodd y cadeirydd groeso hefyd i Chris Franks a Huw Lewis i'r pwyllgor yn dilyn eu hetholiad diweddar. Rhoddodd ddiolch i Helen Mary Jones a Lynne Neagle am eu cyfraniad gwerthfawr i'r pwyllgor.

### Eitem 2: Hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru

**Papur: EOC(3)-04-08(p.1)**

2.1 Nododd yr Aelodau ymateb y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i'r argymhellion yn adroddiad y pwyllgor.

### Camau i'w cymryd:

Y cadeirydd i ysgrifennu at y Comisiwn Etholiadol ynglŷn ag argymhellion 2 a 6.

Y pwyllgor i ystyried effaith yr adroddiad ar etholiadau lleol (Mai 2008) yn ystod tymor yr hydref ar y cyd ag adroddiad y Comisiwn Etholiadol, 'Cyfrifo mewn Etholiadau (Etholiadau 2007 Cynulliad Cenedlaethol Cymru)'. Hefyd, byddai angen gofyn i swyddogion canlyniadau ddarparu'r ffigurau ar nifer y bobl anabl a gyflogwyd i ofalu am yr etholiadau lleol.

### Eitem 3: Ymchwiliad i weithwyr mudol

**Papur: EOC(3)-04-08(p.2)**

3.1 Cafodd y pwyllgor gyflwyniadau gan TUC Cymru a'r Gymdeithas Cymry-Pwyliaid. Bu'r tystion yn ateb cwestiynau'r Aelodau.

### Camau i'w cymryd:

TUC Cymru i anfon fersiynau electronig o'r taflenni a gynhyrchwyd ar gyfer yr etholiadau lleol sydd ar ddod ac i ysgrifennu at y cadeirydd i roi manylion y berthynas y mae undebau llafur wedi'i ffurfio gyda sefydliadau tebyg mewn gwledydd Ewropeaidd.

Y pwyllgor i wahodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i roi cyngor ar achredu sgiliau ar gyfer gweithwyr mudol.

### Eitem 4: Ymchwiliad i weithwyr mudol

**Papur: EOC(3)-04-08(p.3)**

4.1 Nododd yr aelodau y papur a baratowyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar y prif faterion a oedd yn deillio o'r dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad.

### Camau i'w cymryd:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i baratoi papur briffio ar y Mesur Aelod Preifat, a gynigiwyd gan Andrew Miller AS, ar y Mesur Gweithwyr Dros Dro a Gweithwyr Asiantaeth (Triniaeth Gyfartal) 2007-08.

Yr ysgrifenyddiaeth i wahodd cynrychiolwyr o'r Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru ac asiantaeth drwyddedig i gyfarfod pwyllgor.

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Mawrth 2008